Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Louise Williams
Ysgol Gynradd Blaengwrach
Heol Wenallt
Cwm-gwrach
Castell-nedd
SA11 5PS

15/07/2025

Annwyl Louise Williams

**Ymweliad interim:** Mehefin 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Blaen-gwrach yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Sicrhau bod monitro a gwerthuso yn canolbwyntio'n graffach ar ddatblygu addysgu ac asesu i ysgogi mwy o welliant yng nghynnydd disgyblion

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth onest a chywir o'r cynnydd mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd, ac o'r camau nesaf yn natblygiad yr ysgol.
- Mae diwylliant cynyddol fyfyriol yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi sefydlu ymagwedd gynhwysol at hunanwerthuso sy'n cynnwys pob un o'r staff. Mae staff yn deall y rôl bwysig y maent yn ei chwarae yn gwerthuso effeithiolrwydd yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r adborth, y cymorth a'r arweiniad maent yn eu cael, ac maent yn ymatebol iddynt.
- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ymagwedd at addysgu yn yr ysgol, ac ansawdd addysgu. Maent yn defnyddio ystod dda o weithgareddau hunanwerthuso yn effeithiol, gan eu helpu i ddeall a gwerthuso addysgu a'i effaith ar ddysgu'r disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglant yn briodol i lywio'r camau nesaf yn natblygiad yr ysgol, gan gynnwys gwelliannau parhaus i arfer ystafell ddosbarth.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Ar ôl yr arolygiad craidd, trwy hunanwerthuso, nododd arweinwyr nad oedd amgylcheddau ystafelloedd dosbarth wedi'u datblygu'n ddigonol. Ers hynny, maent wedi sefydlu amgylcheddau gydag athrawon sy'n darparu cymorth defnyddiol ar gyfer dysgu'r disgyblion, gan eu helpu i ddechrau datblygu mwy o annibyniaeth a gwydnwch.
- Mae arweinwyr yn defnyddio hunanwerthuso yn briodol i nodi anghenion dysgu proffesiynol, ar lefel y staff cyfan ac ar lefel unigol. Mae staff yn dechrau cydweithio'n dda, gyda'i gilydd a gyda chydweithwyr o ysgolion partner. Gyda chymorth arweinwyr, mae staff yn datblygu ymagweddau defnyddiol at holi ac adborth. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion o fewn gwersi a thros gyfnod.

## Gwella ansawdd asesu ac adborth i ddisgyblion i lywio'r camau nesaf mewn dysgu

- Mae arweinwyr a staff wedi cydnabod bod angen sicrhau bod adborth i ddisgyblion yn fwy ystyrlon ac yn cefnogi cynnydd mewn dysgu. Mae'r ysgol wedi bod yn addas o ragweithiol a chydweithredol yn ei hymagwedd at gyflawni hyn.
- Mae pob un o'r staff wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol perthnasol, a gyda'i gilydd, maent wedi diwygio polisi'r ysgol a'i hymagwedd at ddarparu adborth effeithiol. Mae'r gwaith hwn yn dechrau dod yn amlwg mewn arfer ystafell ddosbarth, gan helpu disgyblion i ddechrau cael dealltwriaeth well o sut i symud eu dysgu ymlaen.
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi adborth gwerthfawr ac amserol i ddisgyblion. Maent wedi datblygu ymagwedd 'gynhadledd' fuddiol at ddarparu adborth buddiol yn ystod gwersi. Trwy'r cynadleddau hyn, mae staff neu ddisgyblion eraill yn cynorthwyo disgyblion i wneud gwelliannau i'w gwaith a dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae'r fenter hon yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth briodol o ddiben a budd adborth a sut i weithredu arno'n llwyddiannus.
- Mae staff yn dechrau defnyddio technegau holi effeithiol sydd, ar y cyfan, yn helpu disgyblion i gadarnhau ac egluro'u dealltwriaeth. Pan mae'r arfer hon yn fwyaf effeithiol, mae'n annog disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu ac yn eu galluogi i ddeall eu camau nesaf, a mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn helpu disgyblion ar draws yr ysgol i ddechrau datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/blaengwrach-primary-school-cy/

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol